

# Canllaw Cymorth Cristnogol ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019

## 'Ffordd cariad yw ffordd Iesu. A gall ffordd cariad newid y byd.' – Esgob Michael Curry.

Gyda phob penderfyniad, gallwn ddewis dilyn ffordd cariad. Yn y byd rhyng-gysylltiol hwn, mae llawer o'n dewisiadau a'n gweithredoedd yn effeithio ein brodyr a'n chwirydd o amgylch y byd. Mae yna rym i ddilyn ffordd cariad sy'n gallu newid y byd i fod yn un ble gall pob person dynol, wedi eu creu yn nelw Duw, ffynnu yma ar y Ddaear.

Mae Etholiad Cyffredinol y DG ar y 12 Rhagfyr yn gyfle inni ddilyn ffordd cariad. Gallwn alw ar y rhai fydd yn gwneud y penderfyniadau yn y dyfodol i weithredu mewn cariad tuag at dlodion y byd. Gallwn alw am bolisiau sy'n codi pobl o dlodi, ac am atebion i fyd toredig ble mae'r system economaidd yn parhau i greu tlodi, anghydraddoldeb a'r argyfwng hinsawdd. Ym Maniffesto 2019: Dros urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder, mae Cymorth Cristnogol wedi gosod ei weledigaeth am fyd sy'n gallu ffynnu. Mae'n cyflwyno gofynion allweddol ar gyfer llywodraeth nesaf y DG i fynd i'r afael â sgandal tlodi.

Darllenwch ein maniffesto'n llawn yn [caid.org.uk/generalelection](http://caid.org.uk/generalelection)

## Crynodeb y maniffesto

Mae maniffesto Cymorth Cristnogol yn ceisio atebion sy'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n gyrru newid hinsawdd, anghydraddoldeb byd-eang a thlodi, ac a fyddai'n ein gosod ar lwybr i fyd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Byd ble mae'r argyfwng hinsawdd byd-eang yn cael ei gydnabod gan arweinwyr y byd a ble mae newidiadau sydyn a chreiddiol yn cael eu gweithredu; byd ble mae cyfoeth yn cael ei rannu'n fwy teg ac yn cael ei reoli'n fwy cyfrifol; byd ble y caiff llais pob person ei glywed; a byd ble bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn blaenoriaethu heddwch dros ryfel.

## Ein hargyfwng hinsawdd byd-eang

Y gwledydd sy wedi gwneud y lleiaf i greu newid hinsawdd yw'r rhai sy'n awr yn dioddef effeithiau hinsawdd sy'n ymddatod.

**Mae Cymorth Cristnogol yn galw am Fargen Newydd ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd** a fyddai'n gweld y DG yn arwain trosglwyddiad anferth o arian a thechnoleg i wledydd tlawd a hinsawdd-fregus, atal ariannu ynni

ffosil a chefnogi lefelau cynaliadwy o dreuliant. Rhaid i'r DG hefyd sicrhau nad yw datblygu ynni adnewyddol yn ecsbloetio pobl nac yn dinistrio'r amgylchedd ac sy'n sicrhau fod y trawsnewid economaidd sydd ei angen hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y DG hefyd.

Am fwy o wybodaeth am ein Bargen Newydd ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd ewch i [caid.org.uk/climatjusticepetition](http://caid.org.uk/climatjusticepetition)

## Economi byd-eang tecach

Fu erioed cymaint o gyfoeth yn rhyngwladol - ac eto mae tlodi'n parhau ar draws y byd, oherwydd y dewisiadau gwleidyddol a wneir ac oherwydd anghydraddoldeb grym a braint.

Mae gan lywodraethau a'r sector breifat eu rôl i chwarae i adeiladu economïau cyfiawn a chynaliadwy. Rhaid i ymgysylltiad Llywodraeth y DG gyda gweddill y byd beidio â bod ar sail gwerthoedd hunan-les, ond yn hytrach dylai hawliau dynol fod yn greiddiol i'r cwbl a wnawn.

**I greu economi decach, rhaid ymosod ar osgoi treth a diweddu cronfeydd fwltur a dyled sy'n ecsbloetio.**

## Datblygu cynaliadwy fel hawl dynol

Isafswm, nid uchafswm, ddylai gwario 0.7% o GNI ar ddatblygu cynaliadwy fod.

**Rydym am weld pob cymorth yn cael ei wario ar leihau tlodi a datblygu cynaliadwy.**

## Blaenoriaethu heddwch dros ryfel

Er yn anghysurus, mae'n ffaith ddiymwad nad oes gan y DG enw da am gadw heddwch.

Tra bo'r DG yn ymddangos fel ei bod am weld diwedd heddychol i'r argyfwng dyngarol yn Yemen, mae'n gwlad hefyd yn gwerthu arfau i'r gynghrair a arweinir gan Saudi, er gwaethaf iddi dorri cyfraith ddyngarol a'r dystiolaeth ei bod yn bomio targedau sifil.

**Rydym yn galw ar lywodraeth y DG i flaenoriaethu heddwch dros ryfel.**

## Sut i ymgysylltu gydag ymgeiswyr

### Hystingau

Mae hystingau'n cael eu cynnal mewn seddi neu etholaethau arbennig fel arfer pan fo cyrff lleol, fel eglwys, yn gwahodd ymgeiswyr i gyfarfod cyhoeddus. Mae cynulleidfa o etholwyr yn gwrandao ar drafodaeth ac yn holi'r ymgeiswyr.

Os cewch gyfle i fynd i hystingau, byddai hyn yn dangos i'r ymgeiswyr fod llawer o'u hetholwyr yn pryderu am dlodi byd-eang. I weld a oes hystingau yn eich ardal chwiliwch:

- gwefannau a chyfryngau cymdeithasol eich eglwysi lleol
- gwefannau eich ymgeiswyr lleol – enwau ymgeiswyr yn **whocanivotefor.co.uk**
- Gwefan Cytûn: **cytun.co.uk/hafan/hystings-2019/**

### Ysgrifennwch at eich ymgeisydd

Gallwch ysgrifennu neu e-bostio eich cwestiwn. Manylion am eich ymgeiswyr ar gael yn **whocanivotefor.co.uk**

### Ar stepen y drws

Os yw'r ymgeiswyr neu eu gwirfoddolwyr yn curo ar eich drws, cymerwch fantais o'r cyfle i'w holi am fynd i'r afael â thlodi byd-eang ac anghydraddoldeb. Gweler y cwestiynau a awgrymwn isod.

## Cwestiynau posibl

### 1. Yr argyfwng hinsawdd

Ydach chi'n cefnogi Bargen Newydd ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd? Un ble bydd Llywodraeth y DG yn:

- trosglwyddo arian teg a thechnoleg i wledydd tlawd a hinsawdd-fregus
- atal ehangu ynni ffosil dramor ac yn y DG
- lleihau gor-dreuliant sy'n gyrru'r argyfwng hinsawdd
- buddsoddi i ddatgarboneiddio'r economi mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol, gan gychwyn gydag ymrwymiad i wario o leiaf 2% o GDP ar bontio teg drosodd i economi net sero.

### 2. Cyfiawnder treth

Mae osgoi teth yn dal pobl mewn tlodi. Mae'n dwyn arian oddi wrth wledydd tlawd a ellid cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau pwysig fel gofal iechyd, puro dŵr ac addysg. Ond y mae rheolau treth y DG yn parhau i ffafrio osgoi treth.

Petai chi'n cael eich ethol fel AS, wnewch chi weithredu i greu deddf fyddai'n gorfodi cwmnïau'r DG i gyhoeddi'r trethi y maent yn ei dalu wlad wrth wlad, fel bod gwledydd sy'n datblygu'n gwybod ymhle y caiff yr arian ei wneud a ble y mae'r dreth yn cael ei thalu?

### 3. Blaenoriaethu heddwch

Mae sawl llywodraeth wedi honni eu bod yn ceisio heddwch mewn rhanbarthau o anghydfod, tra ar yr un pryd yn gwerthu arfau. Enghraifft ddiweddar yw'r Yemen, ble y parhaodd y llywodraeth ddiwethaf i werthu arfau i'r gynghrair a arweinir gan Saudi, sydd yn gyson yn torri cyfraith ddyngarol.

Petai chi'n cael eich ethol yn AS, wnewch chi weithredu i atal gwerthu arfau i Saudi Arabia a'r UAE? Wnewch chi hefyd gryfhau trefn gwerthu arfau'r DG dramor?

### 4. Datblygu cynaliadwy

Mae gan y DG hanes balch o helpu'r tlotaf trwy gymorth rhyngwladol. Petai chi'n cael eich ethol yn AS wnewch chi ymrwymo i barhau i gefnogi hyn trwy:

- Sicrhau fod yr Adran Datblygu Ryngwladol yn parhau i fod yn endid annibynnol?
- Ymrwymo i wario 0.7% o GNI ar gymorth pob blwyddyn?
- Sicrhau fod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i leihau tlodi ac nad yw'n ychwanegu at yr argyfwng amgylcheddol nac yn gwasanaethu diddordebau'r DG?